


# Maes Llafur Cytûn Wrecsam Ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

# 2022





wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

## Cynnwys

Cynulleidfa . . . 3

Cyflwyniad . . . 5

Crynodeb o newidiadau cyfreithiol . . . 6

Crynodeb o’r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg . . . 6

Cyfrifoldebau . . . 7

Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg . . . 8

Yr hawl i dynnu yn ôl yn y Cwricwlwm i Gymru . . . 8

Amser y cwricwlwm . . . 9

Addoli ar y Cyd . . . 10

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl 16 . . . 10

Adnoddau . . . 10

Staffio a Hyfforddiant mewn Swydd . . . 11

Canolfan San Silyn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg . . . 11

Rôl yr ymarferydd . . . 11

Grwpiau Ffydd a Chred lleol a chenedlaethol . . . 12

ATODIAD 1: Rhestr termau . . . 13

ATODIAD 2: Addysg mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir ac a gaiff eu hariannu . . . 16

ATODIAD 3: Rhestr o ysgolion yn Wrecsam yn ôl math e.e. Cymunedol, Sefydledig, Gwirfoddol a Reolir, Gwirfoddol a Gynorthwyir . . . 17

ATODIAD 4: Grwpiau ffydd a chred lleol . . . 19

ATODIAD 5: Llais y Dysgwr . . . 20

## Cynulleidfa

Aelodau CYSAG; athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn Wrecsam; undebau athrawon a chyrff cynrychiolwyr ysgol; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; cyrff crefyddol eraill a chyrff nad ydynt yn rhai crefyddol; cyrff cenedlaethol yn Wrecsam gyda diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a rhieni a gofalwyr.

### Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r manylion yn ymwneud ag addysgu a dysgu yn yr elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer yr holl ysgolion yn Wrecsam a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae'r ddogfen hon wedi ei mabwysiadu fel y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Wrecsam yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

O fis Medi 2022, fe fydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu gan yr holl ysgolion cynradd a lleoliadau mewn perthynas â'r holl ddysgwyr hyd at a gan gynnwys Blwyddyn 6. Mewn perthynas â dysgwyr Blwyddyn 7, fe fydd gan ysgolion hyblygrwydd o ran p'run ai i 'optio i mewn' i'r Cwricwlwm i Gymru ym Medi 2022, neu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym Medi 2023. Wedi hynny fe fydd y cyflwyno fesul cam yn parhau fel y dangosir:

- Dysgwyr Blwyddyn 9 ym Medi 2024
- Dysgwyr Blwyddyn 10 ym Medi 2025
- Dysgwyr Blwyddyn 11 ym Medi 2026

Yn ystod y cyfnod o gyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol neu leoliad 'fabwysiadu' Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, fe fydd gofyn iddynt roi sylw i'r ddogfen hon ar gyfer y dysgwyr hynny. Tan hynny, fe ddylai'r grwpiau blwyddyn hyn barhau i ddilyn y maes llafur cytunedig blaenorol ar gyfer Addysg Grefyddol, dyddiedig 14 Chwefror 2019 ar wefan Canolfan San Silyn.

### Cam Gweithredu

Mae gofyniad cyfreithiol ar yr holl ysgolion a gynhelir yn Wrecsam i 'roi sylw' i'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth ddylunio eu cwricwlwm. Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytunedig bob pum mlynedd.

Fe ddylai ymholiadau pellach ynglŷn â'r ddogfen hon gael eu cyfeirio at:

Yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer Wrecsam.
Adeiladau'r Goron
Wrecsam

E-bost: libby.jones@wrexham.gov.uk

## Gellir cael copïau ychwanegol gan:

Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Wrecsam ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
Adeiladau'r Goron
Wrecsam

E-bost: clerktosac.rve@wrexham.gov.uk

## Dogfennau cysylltiedig:

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Dynol Plant tuag at Addysg yng Nghymru.

## Cyflwyniad

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw'r enw mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi ar Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm i Gymru. **Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i'r holl ddysgwyr o 3 i 16 oed** ac mae nawr yn gorwedd o fewn y cwricwlwm, ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, yn ogystal â daearyddiaeth, hanes, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ymgorffori ystod o ymagweddau disgyblaethol y gall dysgwyr eu defnyddio i ymgysylltu'n feirniadol gydag ystod eang o gysyniadau crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol. Er enghraifft, fe all ymagweddau disgyblaethol sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg gynnwys astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg ac anthropoleg. Hefyd mae yna berthynas gref rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r disgyblaethau eraill o fewn y Dyniaethau yn ogystal â gyda meysydd eraill.

Caiff Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ei benderfynu'n lleol o hyd ac felly, yn ogystal â rhoi sylw i Ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb, sy'n cynnwys y canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, **mae'n rhaid i'r holl ysgolion yn Wrecsam roi sylw i'r maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Wrecsam wrth ddylunio eu cwricwlwm ysgol.** Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw i fonitro darpariaeth statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac fe'u cefnogir o ran gwneud hynny gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Wrecsam ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Fe fabwysiadwyd y ddogfen hon fel maes llafur cytunedig Wrecsam ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod Lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ddydd Iau 28 Ebrill 2022. Mae Canllawiau Statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb yn rhoi'r sylfaen i faes llafur cytunedig Wrecsam, ac fe ddylid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

Nid yw'r maes llafur cytunedig hwn wedi ei fwriadu i fod yn gynllun gwaith. Mae'n darparu fframwaith y gall pob ysgol ddylunio ei chwricwlwm lleol ei hun oddi mewn iddo, sy'n cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau.

Gellir gweld canllawiau statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy wefan Hwb Llywodraeth Cymru:

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance

## Crynodeb o newidiadau cyfreithiol

Fe ddylai ysgolion gymryd sylw o'r pwyntiau canlynol:

Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mae'r maes llafur cytunedig yn nodi fod:

- traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn rhai Cristnogol yn bennaf tra'n ystyried addysgu ac ymarfer y prif grefyddau eraill a gaiff eu cynrychioli yng Nghymru.
- y ffaith fod ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn cael eu harddel yng Nghymru.

Fe ddylai ysgolion hefyd gymryd sylw o'r newidiadau deddfwriaethol canlynol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion:

- Nid oes gan rieni hawl i dynnu eu plant o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru.
- Mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir gyda phlant oed meithrin a lleoliadau meithrin nas cynhelir ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer eu holl ddysgwyr o 3 oed o Fedi 2022 (gweler atodiad 2).
- Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl 16 mewn ysgolion a gynhelir yn ddewisol ar gyfer disgyblion 6ed dosbarth.

## Crynodeb o'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg statudol sy'n ffurfio sylfaen maes llafur cytunedig Wrecsam ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i ysgolion wrth ddylunio eu cwricwlwm ar lefel lleol, fel:

- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygiad ysbrydol
- Dylunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r pedwar diben
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r datganiadau o beth sy'n bwysig
    - Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (is lensiau mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg)
    - Dilyniant dysgwyr a theithiau dysgu o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Cyfoethogi profiad y dysgwr mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill
    - Pwyntiau i'w hystyried ar gyfer ysgolion a lleoliadau

- Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Addysg mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir ac a gaiff eu hariannu
- Addysg ac eithrio addysg ysgol

## Cyfrifoldebau

Mae gan yr ALl, llywodraethwyr ysgol a phenaethiaid ysgolion cymunedol, sefydledig ac ysgolion gwirfoddol heb gymeriad crefyddol yn Wrecsam gyfrifoldeb i sicrhau fod y ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi ei ddylunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth hon o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei gweithredu ar gyfer yr holl ddysgwyr o 3 oed i 16 oed.

Ar gyfer ysgolion Sefydledig ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir gyda chymeriad crefyddol yn Wrecsam, cyfrifoldeb yr ALL, llywodraethwyr ysgol a phenaethiaid yw i sicrhau fod y ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi ei ddylunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, ar gyfer yr ysgolion hyn mae yna ofyniad ychwanegol sy'n weithredol **dim ond os nad yw'r ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd yn cyd-fynd** â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu gredo crefydd neu enwad crefyddol yr ysgol. Yn yr achos hwn mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ychwanegol sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu gredo ei grefydd neu ei enwad crefyddol. Y rheswm am hyn yw am y gall rhieni dysgwr wneud cais am ddarparu'r ddarpariaeth ychwanegol hon i'w plentyn, ac os y gwneir cais o'r math hwn mae'n rhaid cydymffurfio â'r cais.

Ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn Wrecsam cyfrifoldeb llywodraethwyr ysgol a'r penaethiaid yw sicrhau fod y ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi ei ddylunio i gyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu gredo ei grefydd neu ei enwad. Fodd bynnag, mae yna ofyniad ychwanegol sy'n weithredol **dim ond os nad yw'r ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd yn rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig.** Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi ei ddylunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig. Y rheswm am hyn yw am y gall rhieni dysgwr wneud cais am ddarparu'r ddarpariaeth ychwanegol hon i'w plentyn, ac os y gwneir cais o'r math hwn mae'n rhaid cydymffurfio â'r cais.

Mae rhagor o fanylion am ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm i'r holl fathau o ysgolion i'w gweld yn y Grynodeb o'r Ddeddfwriaeth ar Hwb.

Byddai angen i ymholiadau yn ymwneud â darpariaeth ychwanegol mewn ysgolion penodol yn Wrecsam gael eu cyfeirio at Bennaeth yr ysgol berthnasol. Gweler Atodiad 3 am ragor o wybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth gyffredinol ar ysgolion yr Eglwys yng Nghymru i'w gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth gyffredinol ar Ysgolion Catholig i'w gael ar wefan y Gwasanaeth Addysg Gatholig.

## Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Swyddogaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw i gynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n gysylltiedig â darparu addysgu a dysgu, o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, un ai mewn perthynas â'r elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg dewisol sy'n cynnwys:

- dulliau addysgu;
- y dewis o ddeunyddiau addysgu;
- y ddarpariaeth o hyfforddiant athrawon.

Yn ychwanegol fe all y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog gynghori ar addoli ar y cyd yn ysgolion y Sir ac unrhyw fater arall y gall yr awdurdod lleol ei gyfeirio at y cyngor neu fel y bydd y cyngor yn ei weld yn addas.  Yn ychwanegol fe fydd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog yn cyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn yn ymwneud ag arfer ei swyddogaethau a'i gamau gweithredu.

O dan y Deddfau Addysg, mae'n rhaid i'r ALl ddarparu trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â Chwynion. Fe all y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg felly ystyried cwynion nad ydynt wedi eu datrys yn ymwneud â'r ddarpariaeth neu ddiffyg darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Fe fydd y trefniant hwn yn rhoi'r cyfle i rieni ac eraill i sicrhau darpariaeth briodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws yr holl ysgolion yn Wrecsam.

## Yr hawl i dynnu yn ôl yn y Cwricwlwm i Gymru

O fis Medi 2022, ni fydd gan rieni yr hawl i dynnu yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn perthynas â'r holl ddysgwyr hyd at a gan gynnwys blwyddyn 6, gan y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu gan yr holl ysgolion cynradd a lleoliadau o'r dyddiad hwn.

Fe fydd ysgolion uwchradd wedi cael yr hyblygrwydd o ran p'run ai i 'optio i mewn' i'r Cwricwlwm i Gymru ym Medi 2022, neu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym Medi 2023.

Ar gyfer yr ysgolion uwchradd a'r lleoliadau hynny nad ydynt wedi optio i mewn i'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â blwyddyn 7 ym Medi 2022, fe fydd yr hawl i dynnu yn ôl yn parhau ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7 ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023, ond ni fydd yn bodoli ar gyfer eu dysgwyr blwyddyn 7 ac 8 ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024.

O fis Medi 2023, ni fydd hawl i dynnu yn ôl mewn perthynas â blynyddoedd 7 ac 8 gan y bydd yr holl

ysgolion a lleoliadau wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y dysgwyr hynny. Wedi hynny fe fydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn raddol yn parhau, a bydd yr hawl i dynnu yn ôl yn cael ei ddiddymu ar gyfer:

- Dysgwyr Blwyddyn 9 ym Medi 2024
- Dysgwyr Blwyddyn 10 ym Medi 2025
- Dysgwyr Blwyddyn 11 ym Medi 2026

Mae rhagor o wybodaeth ar yr hawl i dynnu yn ôl yn y Grynodeb o'r ddeddfwriaeth ar Hwb.

## Amser y cwricwlwm

Nid oes yna unrhyw ofyniad cyfreithiol i gwricwlwm yr ysgol ddarparu nifer penodol o oriau neu wersi ar gyfer unrhyw bwnc neu ddisgyblaeth. Fodd bynnag, fel un o elfennau gorfodol y Cwricwlwm i Gymru fe ddylai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael yr un tegwch â disgyblaethau eraill o fewn Maes y Dyniaethau. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gynnig addysg eang a chytbwys, sy'n galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol ddisgyblaethau a meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd). Felly, fe ddylai dylunio'r cwricwlwm dynnu gwahanol ddisgyblaethau ynghyd, gan gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddarparu profiad dysgu cydlynol a chyfannol i ddysgwyr, sy'n ymgorffori'r canlynol:

- sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- y sgiliau sy'n ganolog i'r pedwar diben
- ystyriaeth o'r themâu trawsbynciol

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â rôl disgyblaethau mewn dysgu ar gael yn yr adran Egwyddorion ar gyfer dylunio eich cwricwlwm ar Hwb.

Wrth i ddysgwyr fynd yn eu blaenau, fe ddylent gael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu gyda gwahanol ddisgyblaethau ac i arbenigo oddi mewn iddynt, yn arbennig pan fyddant yn cyrraedd y camau cynnydd diweddarach. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn dweud wrthym y dylai'r broses hon gael ei chefnogi gan addysgu disgyblaeth arbenigol a ddylai, ynghyd â'r ymagwedd amlddisgyblaethol i ddylunio cwricwlwm, baratoi dysgwyr sy'n ceisio arbenigo ymhellach wrth ddysgu ôl-16. **Fe fydd hyn yn gofyn am arbenigwyr i ddysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac arbenigwyr i gael mewnbwn o ran dylunio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y dyniaethau.**

Tra dylai dysgwyr gael cyfleoedd i arbenigo, mae'n rhaid i'r cwricwlwm barhau yn eang a chytbwys a dylai pob dysgwr barhau i dynnu ar ddysgu o bob Maes trwy gydol eu cyfnod mewn addysg orfodol, sy'n cynnwys yr elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd disgwyl i ysgolion alluogi'r holl ddysgwyr i gael mynediad i ystod o gyrsiau astudio ac i gymryd cymwysterau addas ar ddiwedd addysg orfodol. Fe fydd rhagor o wybodaeth ar gymwysterau addas, gan gynnwys Astudiaethau Crefyddol TGAU ar gael gan Gymwysterau Cymru maes o law.

## Addoli ar y Cyd

Fe ddylai ysgolion nodi na ddylai amser cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gynnwys amser a roddir i weithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd. Fe saif addoli ar y cyd y tu allan i'r cwricwlwm ac mae ganddo'i safiad a'i ofynion cyfreithiol ei hun. Fe all rhieni barhau i ofyn am i'w plant gael eu tynnu o addoli ar y cyd o Fedi 2022, os ydynt yn dymuno.

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl 16

Yn y Cwricwlwm i Gymru mae statws gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi ei ddiddymu ar gyfer y Chweched Dosbarth mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac felly mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ddewisol ar gyfer y dysgwyr hyn o Fedi 2027. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ysgolion unigol gyda Chweched Dosbarth rhag amserlennu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer yr holl fyfyrwyr pe baent yn dymuno gwneud hynny. Os yw ysgolion yn dewis peidio ag amserlennu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer eu disgyblion Chweched Dosbarth yna mae gan ddysgwyr unigol yr hawl i 'optio i mewn' i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac yn gyfreithiol byddai'n rhaid i'r ysgol ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r dysgwyr hynny. Mae rhagor o wybodaeth ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl 16 yn y Grynodeb o'r ddeddfwriaeth ar Hwb.

Pan fo dysgwr Ôl 16 yn gofyn am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf mae'n rhaid i'r Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod wedi ei ddylunio fel ei fod yn:

- adlewyrchu'r ffaith fod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn rhai Cristnogol yn bennaf tra'n ystyried addysgu ac ymarfer y prif grefyddau eraill a gaiff eu cynrychioli yng Nghymru
- hefyd adlewyrchu'r ffaith fod ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn cael eu harddel yng Nghymru

Mae yna amryw o ffyrdd y gall ysgol ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer disgyblion Chweched Dosbarth sy'n gofyn am hynny. I gael cyngor ar y math yma o ddarpariaeth fe all ysgolion gysylltu â'r Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg neu Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Wrecsam ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gael cefnogaeth. Mae manylion cyswllt ar gael ar dudalen 2 y ddogfen hon.

## Adnoddau

Fe ddylai ystod eang o adnoddau fod ar gael gan gynnwys arteffactau a gwrthrychau crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol, gwaith ysgrifenedig cysegredig ac athronyddol a thestunau a chyfeirlyfrau eraill, darpariaeth lyfrgell ddigonol a mynediad i TGCh, ymweliadau i leoedd addoli lleol a lleoedd arbennig eraill, tirweddau ac amgylcheddau, gan gynnwys y rhai hynny gyda dimensiynau crefyddol ac ysbrydol pwysig, ac ymwelwyr priodol o'r gymuned leol, gan gynnwys y rhai hynny o grwpiau ffydd a chred a gaiff eu cynrychioli'n lleol ac ar hyd a lled Cymru. Fe ddylai ysgolion hefyd wneud defnydd o'r Ystafell Adnoddau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi ei lleoli yng Nghanolfan San Silyn ar gyfer Addysg Grefyddol yn Wrecsam.

## Staffio a Hyfforddiant mewn Swydd

Fe ddylai cydlynydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei ddynodi yn yr holl ysgolion a lleoliadau. Fe all hwn fod yr unigolyn sydd eisoes â chyfrifoldeb dros Ddyniaethau neu unrhyw unigolyn priodol arall.  Fe ddylai adnoddau sy'n gwbl hygyrch a rhaglenni rheolaidd o ddysgu proffesiynol gael eu darparu.

## Canolfan San Silyn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Fe all dysgu proffesiynol ddigwydd mewn gwahanol gyd-destunau, gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol. Mae Canolfan San Silyn yn gallu cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol RHAD AC AM DDIM ac adnoddau sy'n berthnasol i feysydd sy'n gysylltiedig â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer athrawon, ysgolion a lleoliadau yn Wrecsam. Fe allwch gael rhagor o wybodaeth am ddysgu proffesiynol o Ganolfan San Silyn Wrecsam ar wefan Canolfan San Silyn.

## Rôl yr ymarferydd

Mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, fe fydd yr ymarferydd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol drwy archwilio credoau ac arferion gwahanol a gwerthoedd a moeseg pobl yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang fel y gallant adnabod a gwerthfawrogi y rhan y mae ffydd a chred yn ei chwarae mewn bywyd.

Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn **wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol,** a hynny mewn cynnwys ac addysgeg; nid yw'n ymwneud â gwneud dysgwyr yn 'grefyddol' neu yn 'anghrefyddol.' Felly mae'n **rhaid i'r athro feithrin ymagwedd anenwadol** o ran archwilio unrhyw ffydd, cred neu enwad. Fe ddaw'r ymadrodd 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' o gyfraith achos y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sicrhau fod rhaid cynnig cyfleoedd drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bob dysgwr i ymgysylltu gyda chrefyddau gwahanol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn rhai crefyddol yn eu hardal eu hunain ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd yn ehangach.

Mae'n **rhaid i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod yn blwraliaethol** o ran ei natur a cheisio, ymhlith pethau eraill, dadlennu gwybodaeth, datblygu sgiliau a chynnig profiadau a fydd yn dwysáu dealltwriaeth, annog barn seiliedig ar wybodaeth a datblygu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol. Nid oes unrhyw le o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer gorfodi plentyn i unrhyw ffydd, cred neu enwad penodol, nac i'r gwrthwyneb i ddim un o gwbl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwahardd darparu cyfleoedd dysgu lle gall dysgwyr gael y profiad o gyfarfod pobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddynt. O ymdrin â hyn yn sensitif gydag uniondeb proffesiynol, mae hyn yn rhan hanfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gall hybu dysgu yn gadarnhaol.  Felly fe ddylai ymwelwyr o grwpiau ffydd a chred yn y gymuned leol ac ehangach gael eu hannog a'u datblygu er mwyn helpu i gefnogi synnwyr a rennir o gynefin. Fe ddylai sensitifrwydd tuag at gredoau, gwerthoedd ac arferion eraill fod yn ystyriaeth bob amser.

## Grwpiau Ffydd a Chred lleol a chenedlaethol

Mae yna nifer o wahanol grwpiau ffydd a chred a gaiff eu cynrychioli yng Nghymru y gall ysgolion ymgysylltu â nhw i hybu addysgu a dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae mwy o wybodaeth am grwpiau ffydd a chred a gynrychiolir yn lleol, gan gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y grwpiau hyn a sut i gysylltu â nhw, ar gael yn Atodiad 4 a hefyd ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# ATODIAD 1: Rhestr termau

### Y Maes Llafur Cytunedig

Mae Maes Llafur Cytunedig yn ddogfen statudol sy'n amlinellu beth ddylai gael ei ddysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Addysg Grefyddol yn flaenorol) yn yr holl ysgolion a gynhelir ar draws Cymru. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig lleol ei hun.

### Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig

Corff statudol sydd wedi ei ffurfio gan yr awdurdod lleol er mwyn llunio maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn i'w ysgolion a gynhelir roi sylw iddo. Mae'n gorff cyfreithiol sydd ar wahân i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog

### Meysydd dysgu a phrofiad

Fe fydd strwythur trefniadol y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad, sydd wedi eu dylunio i annog cysylltiadau cryf ac ystyrlon ar draws disgyblaethau gwahanol. Y Meysydd Dysgu a Phrofiad sydd wedi eu rhestru yn y Ddeddf yw:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

### Ysgol gymunedol

Ysgol a gaiff ei hariannu a'i rhedeg gan yr awdurdod lleol, sy'n berchen ar y tir a'r adeiladau, ac yn penderfynu'r trefniadau derbyn.

### Cynefin

Y fan lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd a lle gellir adnabod golygfeydd a synau sy'n rhoi sicrwydd. Er y caiff ei gyfieithu'n aml fel 'habitat' i'r Saesneg, nid dim ond lle yn y synnwyr ffisegol neu ddaearyddol yw cynefin: dyma'r lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi siapio ac yn parhau i siapio'r gymuned sy'n byw yma.

### Y Cwricwlwm

Mae'n sefydlu'r holl brofiadau addysgu a dysgu sydd wedi eu cynllunio er mwyn ceisio dibenion cytunedig addysg.

### Ysgol sefydledig

Ysgol a gaiff ei hariannu gan yr awdurdod lleol, ond a gaiff ei rhedeg gan gorff llywodraethu'r ysgol. Y corff llywodraethu sy'n cyflogi staff yr ysgol a gan y corff mae'r prif gyfrifoldeb am dderbyniadau. Mae'n bosibl mai'r corff llywodraethu neu sefydliad elusennol sy'n berchen ar dir ac adeiladau'r ysgol..

### Lleoliad meithrin nas cynhelir a gaiff ei ariannu

Darpariaeth breifat, gan gynnwys grwpiau chwarae a gwarchod plant, ar gyfer plant o dan 5 oed. .

### Rhoi sylw

Mae 'rhoi sylw i' yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gymryd i ystyriaeth y canllawiau, ymgysylltu â nhw a'u hystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad. Wedi gwneud hynny, fe ddylai fod yna reswm da dros symud oddi wrthynt a pheidio â chydymffurfio â nhw.

### Hwb

Hwb yw'r platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae Hwb yn rhoi mynediad i'w ddefnyddwyr i ystod o adnoddau dwyieithog a digidol sydd wedi'u hariannu'n ganolog. Dyma sianel ddigidol strategol Llywodraeth Cymru i gefnogi darparu'r cwricwlwm yng Nghymru.

### Ysgolion a Gynhelir

Ysgolion y mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i'w cynnal. Maent yn cynnwys:

- Ysgolion gwirfoddol
- Ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig cymunedol
- Ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig
- Unrhyw ysgol arbennig a gynhelir nad yw wedi ei sefydlu mewn ysbyty

### Ysgolion arbennig a gynhelir

Ysgolion sy'n darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig a sydd wedi eu hariannu gan awdurdod lleol.

### Gorfodol

Mae rhywbeth sy'n orfodol yn rhywbeth a fynnir gan y gyfraith ac mae'n rhaid ei wneud.

### Anenwadol

Ymagwedd ddiduedd tuag at ddysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg nad yw'n gofyn nac yn annog y dysgwr i fod yn grefyddol nac i dderbyn addysgu crefyddol a ragnodwyd.

### Plwraliaethol/plwraliaeth

System lle mae dau neu fwy o grefyddau neu argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn rhai crefyddol, grwpiau, egwyddorion, ffynonellau o awdurdod ayb, yn cydfodoli.

## Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Roeddent yn flaenorol yn cael eu galw yn Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) ac maent wedi eu hailenwi yn Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac mae eu cyfansoddiad wedi ei ddiwygio. Mae gofyn i'r holl awdurdodau lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog o fewn eu hardal leol. Mae Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog yn gyrff annibynnol sy'n ystyried darpariaethau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moesegl o fewn eu hawdurdod lleol.

## Ysgol wirfoddol a reolir

Ysgol a gaiff ei hariannu gan yr awdurdod lleol, ond fel arfer mae sefydliad elusennol (e.e. yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) yn berchen ar dir ac adeiladau'r ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi staff yr ysgol ac mae ganddo gyfrifoldeb dros dderbyniadau, ond fe fydd yn ymgynghori gyda'r sefydliad elusennol wrth lunio'r polisi derbyn.

## Ysgol wirfoddol a gynorthwyir

Ysgol a gaiff ei hariannu yn rhannol gan yr awdurdod lleol ac yn rhannol gan sefydliad elusennol (e.e. yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) sy'n berchen ar dir ac adeiladau'r ysgol. Mae'r corff llywodraethu yn cyflogi staff ac yn penderfynu ar y trefniadau derbyn ac yn cyfrannu at gostau adeiladu a chynnal a chadw.

## ATODIAD 2: Addysg mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir ac a gaiff eu hariannu

Fe ddylai darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad meithrin nas cynhelir ac a gaiff ei ariannu gael ei ystyried fel rhan o ymagwedd gyfannol drosfwaol i ddysgu a datblygiad. Mae adran 'Dylunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' o'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar Hwb' yn darparu rhagor o wybodaeth ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed, gan gynnwys y teithiau dysgu enghreifftiol o 3 oed i gefnogi ymarferwyr yn y lleoliadau hyn gyda'r ymagwedd gyfannol hon.

Mae chwilfrydedd dysgwyr ifanc yn ddiddiwedd; maent yn mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain a gydag eraill, ac yn naturiol maent yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Drwy weithgareddau ymgysylltiol, integredig ac ymarferol yn y cyfnod dysgu hwn, fe allant ddechrau dysgu mwy amdanynt eu hunain, pobl eraill a'r byd yn ehangach.

Fe ddylai addysgeg effeithiol, sydd wedi ei ganoli o amgylch y dysgwr a sy'n ymatebol, deinamig ac wedi ei wreiddio mewn perthnasoedd cryf, fod yn ganolog i ddatblygiad darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad. Drwy chwarae, fe all dysgwyr ddatblygu eu syniadau, eu barn a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd, a all helpu i hysbysu sut maent yn gweld y byd. Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol dysgwyr, yn ogystal â'u lles. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r angen i ddangos gofal a pharch tuag at bethau byw.

Mae dysgwyr yn y cyfnod hwn o ddysgu yn dechrau deall y cysyniad o 'wahaniaeth'. Fe ddylai ymarferwyr eu hannog i rannu eu gwybodaeth a'u profiadau o'u credoau eu hunain, eu treftadaeth a'u traddodiadau, yn ogystal â rhai unigolion eraill (er enghraifft drwy ganeuon, storïau a chwarae rôl). Fe all hyn helpu dysgwyr ifanc i ddeall mwy amdanynt eu hunain, yn ogystal â deall profiadau a safbwyntiau all fod yn wahanol i'w rhai hwy eu hunain.

Fe all amgylchedd cefnogol, sy'n meithrin, lle gall dysgwyr ddysgu am eu gwahaniaethau eu hunain a'r hyn sy'n debyg rhyngddynt ag eraill, eu helpu i ddechrau datblygu perthnasoedd parchus a synnwyr o gyfrifoldeb. Fe allant ddechrau archwilio iaith hawliau a dechrau deall eu hawl i gredu mewn pethau gwahanol a dilyn credoau gwahanol. Drwy hyn fe all dysgwyr o oed cynnar ddechrau nodi a deall sut y gall yr hyn maent yn ei wneud effeithio ar eraill, a dysgu i fyfyrio ar ac adolygu eu safbwyntiau eu hunain, fel bo'n briodol.

# ATODIAD 3: Rhestr o ysgolion yn Wrecsam yn ôl math e.e. Cymunedol, Sefydledig, Gwirfoddol a Reolir, Gwirfoddol a Gynorthwyir

## Ysgolion Cymunedol a Sefydledig **HEB** gymeriad crefyddol

Ysgol Gynradd Parc Acton
Ysgol Alexandra
Ysgol Lôn Barcas
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Ddu
Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras
Ysgol Gynradd Gymunedol Brynteg
Ysgol Gynradd Gymunedol Bwlchgwyn
Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte (Ffederasiwn Ddyffryn Dyfrdwy)
Ysgol Gynradd Gymunedol Garth (Ffederasiwn Ddyffryn Dyfrdwy)
Ysgol Gynradd Gwenfro
Ysgol Gynradd Gymunedol Gwersyllt
Ysgol Gynradd Hafod y Wern
Ysgol Gynradd Gymunedol Holt
Ysgol Gynradd Gymunedol Parc
Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-y-cae
Ysgol Penygelli
Ysgol Rhosddu
Ysgol Gynradd Rhosymedre
Ysgol y Rofft, Marford
Ysgol Gynradd Gymunedol Fictoria
Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat
Ysgol Acrefair
Ysgol Bodhyfryd (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Bro Alun (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Bryn Tabor (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Cae'r Gwenyn
Ysgol Cefn Mawr
Ysgol Cynddelw (Dwy ffrwd)
Ysgol Deiniol Marchwiail
Ysgol Heulfan
Ysgol I D Hooson (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Lan y Pwll (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Ysgol Maes y Llan
Ysgol Maes y Mynydd
Ysgol Min y Ddôl (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Penrhyn New Broughton
Ysgol Plas Coch (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Rhostyllen
Ysgol Sant Dunawd, Bangor-Is-y-Coed
Ysgol Tanyfron
Ysgol y Waun
Ysgol Yr Hafod, Johnstown

**Ysgolion Uwchradd:**
Ysgol Uwchradd Darland
Gorwelion Newydd - Heulfan (Uned Cyfeirio Disgyblion)
Gorwelion Newydd - Stiwdio Pen-y-Cae (Uned Cyfeirio Disgyblion)
Ysgol Sant Christopher
Ysgol Maelor (Sefydledig)
Ysgol Bryn Alyn
Ysgol Clywedog
Ysgol y Grango
Ysgol Morgan Llwyd (Cyfrwng Cymraeg)
Ysgol Rhiwabon
Ysgol Uwchradd Rhosnesni

### Ysgolion Sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir **GYDA** chymeriad crefyddol

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Eyton

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Pentre (Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy)

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru San Silyn

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Pedr

Ysgol Wirfoddol a Reolir Anglicanaidd Borderbrook

### Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir **GYDA** chymeriad crefyddol

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint, Gresffordd

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Bronington

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Madras

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Y Mwynglawdd

Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Chad, Hanmer

Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwabon

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul, Isycoed

### Ysgolion Uwchradd:

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff

Bob blwyddyn mae'r tîm derbyniadau ysgolion yn diweddaru'r 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg' sy'n cynnwys rhestr gyswllt lawn ac enw cyfreithiol pob ysgol. Mae'r canllaw hwn ar gael ar wefan Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## ATODIAD 4: Grwpiau Ffydd a Chred lleol

I gael manylion am grwpiau ffydd a chred lleol yn a ger Wrecsam, cysylltwch â Chyngor Ymgynghorol Sefydlog Wrecsam (ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg).

E-bost: clerktosac.rve@wrexham.gov.uk

Hefyd mae gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â mannau addoli lleol ar wefan Cyngor Sir Wrecsam.

Mae rhai gwefannau ffydd a chred cenedlaethol wedi eu cynnwys isod:

| | |
|---|---|
| **Cymuned Bahá'í y DU** | https://www.bahai.org.uk |
| **Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru** | https://www.cytun.co.uk/hafan/en/home |
| **Cyngor Hindŵaidd y DU** | https://hinducounciluk.org.uk/ |
| **Dyneiddwyr Cymru** | https://humanists.uk/wales |
| **Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydeinig** | https://bod.org.uk |
| **Cyngor Bwdaidd Cymru** | http://buddhistcouncilwales.blogspot.com/p/organisations.html |
| **Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr** | https://www.cbcew.org.uk |
| **Yr Eglwys yng Nghymru** | https://www.churchinwales.org.uk |
| **Cyngor Mwslimiaid Cymru** | https://muslimcouncil.wales |
| **Y Ffederasiwn Paganaidd** | https://www.paganfed.org |
| **Cyngor Sikh Cymru** | http://sikhcouncilofwales.com |

## ATODIAD 5: Llais y Dysgwr

Yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae awdurdod lleol Wrecsam wedi ymgysylltu gyda phobl ifanc 11-25 oed drwy Senedd yr Ifanc Wrecsam i ddarganfod eu safbwyntiau a'u barn ar y newidiadau sy'n effeithio ar addysg grefyddol yng Nghymru a'r pontio i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Caiff canlyniadau'r drafodaeth eu hamlinellu yma.

Ar y cyfan roedd Senedd yr Ifanc yn gadarnhaol iawn ynglŷn â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Ymysg rhai o'r pethau y siaradodd y bobl ifanc yn gadarnhaol ynglŷn â nhw roedd:

- Newid yr enw - mwy perthnasol;
- Pwysigrwydd archwilio crefyddau gwahanol a chredoau nad ydynt yn rhai crefyddol ar gyfer cymdeithas gydlynol;
- Pwysigrwydd teimlo eu bod yn cael eu cynnwys o fewn y gwersi hyn;
- Fe fydd dysgu am werthoedd pobl a moeseg yn ogystal â'u crefyddau yn fwy diddorol ac apelgar i ddysgwyr o bob oed a chefndir;
- Pwysigrwydd fod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bawb a'r hawl i dynnu'n ôl yn cael ei ddiddymu;
- Yr angen i sicrhau fod addysgu a dysgu yn seiliedig ar wybodaeth ddilys a chywir, yn arbennig o ystyried crefyddau neu enwadau sy'n llai cyfarwydd efallai a chredoau nad ydynt yn grefyddol a gaiff eu cynrychioli yn lleol a chenedlaethol.

Ymhlith rhai o'r cwestiynau a godwyd gan bobl ifanc roedd:

- A fydd yr holl athrawon yn ymgysylltu'n llawn gydag ymagwedd wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- A fydd y newidiadau yn cael effaith negyddol ar faint rydym yn ei ddysgu am Gristnogaeth?
- A fydd gwybodaeth athrawon am y pwnc yn ddigon eang i ymdrin ag ychwanegu credoau nad ydynt yn rhai crefyddol?
- A oes yna berygl y bydd credoau llai cyfarwydd fel paganiaeth yn cael eu harchwilio drwy adfeddiant diwylliannol?
- A fydd athrawon a dysgwyr Cristnogol yn teimlo eu bod ar eu colled gan nad ydynt yn gallu canolbwyntio cymaint ar eu crefydd eu hunain?
- A fydd cynnwys credoau nad ydynt yn rhai crefyddol i gwricwlwm sydd eisoes yn llawn yn gorlwytho'r pwnc?
- Beth fydd yr arholiadau yn eu cynnwys ac a fydd yna un arholiad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer pawb, neu un ar wahân ar gyfer ysgolion gyda chymeriad crefyddol?

Fe fydd yr awdurdod lleol yn ystyried y cwestiynau hyn gyda chefnogaeth ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hyn yn y daith i gyflwyno'r cwricwlwm.